Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cyngor Sir |
| **Dyddiad y cyfarfod** | Dydd Mawrth, 27 Chwefror 2024 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Helen Vaughan-Evans, Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau |
| **Awdur yr adroddiad** | Iolo McGregor, Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad |
| **Teitl** | Adolygu Amcanion y Cynllun Corfforaethol |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae maint y toriadau yn y gyllideb sydd eu hangen dros y 3 blynedd nesaf a llai o gapasiti mewn gwasanaethau ar draws y sefydliad yn dangos yr angen i ni ad-drefnu a chanolbwyntio ein hymdrechion. Mae'r adroddiad yma'n cyflwyno cynnig i leihau maint y Cynllun Corfforaethol (Themâu ac Addewidion), a sut y gellir cyflawni hynny.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Yn dilyn adolygiad o'n hamcanion Lles, Cydraddoldeb a Gwelliant presennol, mae angen dod i benderfyniad ar y Cynllun Corfforaethol diwygiedig a gynigir yn yr adroddiad hwn, sydd yn nodi gweledigaeth strategol barhaus y Cyngor ar gyfer gweddill y tymor presennol (2024 i 2027).

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 4) fel rhan o'i ystyriaethau.

3.2 Argymhellir, yn amodol ar unrhyw newidiadau a gytunir, bod yr Aelodau’n cymeradwyo’r Cynllun Corfforaethol diwygiedig (Atodiad 1b) er mwyn gallu cyhoeddi’r ddogfen.

## 4 Manylion yr adroddiad

4.1 Mae’n rhaid cydnabod ar ddechrau’r adroddiad hwn nad oes unrhyw un eisiau’r hyn y gofynnir i’r Cyngor ei ystyried yma ar gyfer y Cynllun Corfforaethol: serch hynny nid yw’r sefyllfa yma’n anarferol nac yn unigryw yng Nghymru. Yn ôl Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol mae’n rhaid i gyrff cyhoeddus adolygu priodoldeb eu Hamcanion Lles yn flynyddol, ac yn yr un modd mae gan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb (Cymru) 2010 ddull i ddiwygio Amcanion Cydraddoldeb. Gan fod y Cyngor yn wynebu her ariannol mor sylweddol, mae hi’n briodol ein bod ni bellach yn achub ar y cyfle yma i adolygu’r sefyllfa, beth sy’n bwysig i ni wrth symud ymlaen, a gwneud addasiadau priodol i gefnogi ein cynaliadwyedd yn yr hirdymor.

4.2 Mae maint presennol y Cynllun Corfforaethol yn creu byrdwn gweinyddol ac mae’n defnyddio llawer o gapasiti rheoli ar draws y sefydliad mewn cyfnod pan mae angen amser a digon o gyfle i feddwl er mwyn mynd i’r afael â’r her gyda’r gyllideb. Mae’r rhwymedigaeth adrodd yn cynyddu ac yn lleihau yn dibynnu ar sawl thema ac addewid sydd yn y Cynllun Corfforaethol, ac mae’r Cynllun Corfforaethol presennol, a symudodd o bump thema i naw, yn cynrychioli cynnydd o 240% mewn maint o’i gymharu â’r Cynllun blaenorol. Ar yr un pryd, mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau wedi gosod dyletswyddau statudol ychwanegol arnom o ran rheoli perfformiad. Yn ymarferol, golygodd hyn mai nid dim ond y nifer o themâu ac addewidion yr oedd gwaith ar eu cyfer a gynyddodd, ond fe gynyddodd y lefel o waith oedd ei angen ar gyfer pob thema hefyd.

4.3 Disgwylir i’r Tîm Cynllunio Strategol arbed arian, gyda’r cynnig i ddileu swydd yn barhaol (swydd wag ar hyn o bryd) - swydd a gafodd ei chymeradwyo’n wreiddiol i adlewyrchu’r byrdwn adrodd a chefnogaeth lywodraethu ychwanegol yr oedd ei angen ar gyfer Cynllun Corfforaethol mwy. Yn ychwanegol, mae maint y toriadau yn y gyllideb sydd eu hangen dros y 3 blynedd nesaf a llai o gapasiti mewn gwasanaethau ar draws y sefydliad hefyd yn dangos yr angen i ni ad-drefnu a chanolbwyntio ein hymdrechion. Ar ben hynny, mae anghenion y sefydliad o ran bod â chapasiti i roi mewnwelediad a hwyluso gwaith o drawsnewid gwasanaethau yn dod yn fwy amlwg, a byddai hyn yn defnyddio capasiti’r Tîm Cynllunio Strategol eto.

4.4 Argymhelliad y papur hwn yw lleihau maint y Cynllun Corfforaethol drwy gael gwared ar 3 Thema ac is-raddio neu ddiwygio 22 Addewid er mwyn rhyddhau'r capasiti sydd ei angen. Fe fydd hefyd o bosibl yn arafu unrhyw ymrwymiadau ariannol yn y dyfodol. Serch hynny, mae'n rhaid pwysleisio nad yw cael gwared ar addewidion yn golygu bod y pethau yma'n dod i stop. Fe fyddant yn parhau ar lefel Cynllun Gwasanaeth cyn hired ag y mae adnoddau yn caniatáu. Mae'r newidiadau a gynigir yn y papur yma'n ymwneud â sut rydym ni'n adrodd yn unig.

4.5 Yn allweddol, bydd mabwysiadu'r newidiadau yma rŵan hefyd yn helpu i ryddhau capasiti o fewn Tîm Cynllunio Strategol yn 2025 - 2026. Dyma pryd fyddai'r Cyngor angen paratoi ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol nesaf sydd yn rhedeg am gylchred statudol o bedair blynedd yn anffodus, yn hytrach na phum mlynedd fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym ni fel arfer yn llunio Cynllun dros dro am un flwyddyn sydd yn cymryd llawer o ymdrech, er mwyn pontio'r bwlch rhwng y gofynion yma a chychwyn ein Cynllun Integredig nesaf; ond mae adolygu ein hamcanion rŵan yn 2024 yn golygu y gallwn ni alinio cylchredau cynllunio busnes y ddau. Fe fydd y diwygiad yma felly, ynghyd â'r wybodaeth ategol ac adendwm (a fydd yn cael ei ddiweddaru) sydd yn egluro sut y gwnaethom lunio Amcanion ein Cynllun Corfforaethol (a gyhoeddwyd ar ein gwefan Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol), yn ffurfio ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024 i 2028. Rydym ni hefyd wedi bodloni gofynion Darpariaethau Ymgysylltu'r Ddeddf drwy ein Harolwg Budd-ddeiliad blynyddol (a gynhaliwyd ddiwethaf rhwng mis Medi 2023 a mis Chwefror 2024) pan fuon ni'n ymgynghori'n eang gyda budd-ddeiliaid yn ein cymunedau am gynnwys a pherthnasedd amcanion ein Cynllun Corfforaethol, yn enwedig o ran materion cydraddoldeb a thegwch.

4.6 Mae Atodiad 1a yn rhoi rhywfaint o gyd-destun ychwanegol i'r adroddiad hwn, tra bod 1b yn rhoi amlinelliad o beth fyddai'r Cynllun Corfforaethol newydd. Teimlir bod yr hyn a amlinellir yma'n cynrychioli'r ffordd weithredol fwyaf syml i'r Cyngor leihau'r byrdwn adrodd y mae'r sefydliad yn ei wynebu ar hyn o bryd, a chreu'r capasiti yr hoffem ei weld ar gyfer y gwaith o drawsnewid busnes. Teimlir hefyd y bydd y newidiadau yma'n cryfhau ein problemau Cydraddoldeb a'r Gymraeg, gan eu symud nhw o themâu ar wahân, ac yn hytrach, eu cael nhw'n egwyddorion sydd yn sail i'n holl themâu a gwaith fel Cyngor (gweler tudalennau 13-14, Atodiad 1b). Mae Atodiad 2 yn rhoi cyfrif manwl o'r newidiadau yr ydym wedi'u gwneud, tra bod Atodiad 3 yn

rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein trefniadau llywodraethu (gyda'r newidiadau wedi'u hamlygu).

4.7 Byddai Themâu ac Addewidion gyda'i gilydd, yn golygu gostyngiad o tua 20% ym maint y Cynllun, a fyddai dal 170% yn fwy na'r Cynllun blaenorol, a byddai'n dal i ddwyn yr Awdurdod i gyfrif. Bydd angen gwneud darn pellach o waith i ysgafnhau'r Fframwaith Perfformiad er mwyn ymateb i newidiadau. Fe fyddai'r newidiadau yma'n cael eu hadrodd drwy ein Hadroddiadau Diweddaru Perfformiad arferol i'r pwyllgorau

# 5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1 Fe fydd y penderfyniad yma'n lleihau'r nifer o themâu ac addewidion yn y Cynllun Corfforaethol. O ganlyniad i hynny, fe fydd nifer y gweithgareddau sy'n cael eu monitro'n gorfforaethol yn lleihau. Fodd bynnag, fe ddylai hyn alluogi'r Awdurdod i ganolbwyntio ei adnoddau lle gellir cael yr effaith mwyaf o fewn cyfyngiadau ariannol.

# 6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Fe ellir osgoi costau lle mae rhai addewidion angen buddsoddiad ychwanegol. Bydd costau i ddarparu'r newid yma'n cael ei ysgwyddo gan y gwasanaeth.

# 7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Mae'r Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1) wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r newidiadau i'r Cynllun. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar gael ynddo, ac ar y cyfan nid oes yna effeithiau negyddol sy'n deillio o ganlyniad i'r newidiadau yma, mae'r effaith ar y Cynllun sy'n weddill yn gadarnhaol.

7.2 Fe ddylem barhau i edrych ar effaith yr asesiad yn rheolaidd ac adolygu ein casgliadau. Dylid parhau i ymgysylltu â grwpiau nas clywir ganddynt yn aml ar draws y rhanbarth. Dylid nodi'r cyfleoedd a amlygwyd ar ddiwedd bob egwyddor datblygu cynaliadwy a'r saith nod lles. Dylai prosiectau neu weithgareddau unigol a nodir yn y Cynllun Corfforaethol gael eu hasesu'n unigol o ran eu heffaith wrth iddynt gael eu datblygu. Mae hefyd yn bwysig nodi bod ein lefel o ddylanwad a rheolaeth yn amrywio ar draws rhai o'r Themâu, a bydd hyn yn effeithio ar ein gallu i gyflwyno effeithiau cadarnhaol mewn rhai meysydd.

## 8 Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Cafodd cynaliadwyedd y Cynllun Corfforaethol ei gwestiynu gan Gynghorwyr yn ystod cyfarfod Craffu ar Berfformiad ym mis Tachwedd. Mae'r cynnig wedi cael ei drafod gyda'r Tîm Gweithredol Corfforaethol, Tîm Arwain Strategol, y Cabinet ac Arweinwyr Grwpiau cyn clywed gan y Cyngor Sir. Mae'r cynnig presennol wedi cael ei gyflwyno gan y Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad gyda'u gwybodaeth am y Cynllun Corfforaethol presennol a sut mae'n gweithio.

## 9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 O ystyried y pwysau a chyfyngiadau ariannol sylweddol y bydd y Cyngor yn gweithredu danynt yn ystod gweddill oes y fersiwn yma o'r Cynllun Corfforaethol, mae hi'n briodol i'w adolygu a gwneud newidiadau iddo. Bydd y cynnig i leihau maint y Cynllun Corfforaethol drwy gael gwared ar Themâu ac is-raddio Addewidion i lefel Cynllun Gwasanaeth yn rhyddhau capasiti ar draws bob gwasanaeth ac yn galluogi'r Tîm Cynllunio Strategol i gyflawni arbediad o £31,000.

## 10 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Fe fydd yna rai ystyriaethau gwleidyddol wrth addasu'r Cynllun Corfforaethol. Gellir rhoi sicrwydd bod yn rhaid gwneud y newidiadau er mwyn amddiffyn lles staff tra bod y Cynllun Corfforaethol diwygiedig yn dal i ddwyn yr Awdurdod i gyfrif ynglŷn â phethau y bydd yn eu darparu er mwyn gwella lles ein preswylwyr. Mae argymhellion y papur hwn yn gyson gyda naratif y gyllideb yn ehangach na allwn ddarparu popeth yr ydym wedi bod yn ei wneud gyda llai o arian. Mae hefyd yn gyfle i ryddhau capasiti i wneud y gwaith trawsnewid er mwyn i wasanaethau'r Cyngor gael eu darparu mewn ffordd wahanol.

10.2 Fe fydd yna rai ystyriaethau gweithredol wrth addasu'r Cynllun Corfforaethol. Ni ddylid colli'r cyfle i gydweithio ar y newidiadau a sicrhau alinio yn ystod proses Gynllunio Gwasanaeth 2024 - 2025 (a wneir rhwng mis Ionawr a mis Mawrth).

10.3 Er mwyn gwneud y newidiadau yma cyn mis Ebrill 2024 pan fyddai'r gwaith yn dechrau ar ein gofynion adrodd blynyddol, mae angen gweithredu pendant gan Aelodau a swyddogion i fodloni'r heriau rydym ni'n eu hwynebu.

## 11 Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Mae'r Cynllun Corfforaethol a'i drefniadau adrodd yn cael eu llywodraethu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2025; Rheoliadau 2011 Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru); a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.